"A"

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun 14eg Gorffennaf, 2025**, yn Festri Capel Hebron, Llangwnnadl, o 7.30 p.m. hyd 8.50 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Gwenan Griffiths (Cadeiryddes)
Y Cynghorydd Elin Hughes (Is-Gadeiryddes)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Michael Strain, Efan Thomas
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Carys E. Williams, Iwan J. Williams, Siôn Williams

36. CYHOEDDIADAU'R GADEIRYDDES

Croesawodd y Cadeiryddes yr aelodau i'r cyfarfod a dymunodd wellhad buan i Nia, gwraig Y Cynghorydd Siôn Williams, oedd yn yr Ysbyty.

37. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

38. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 16eg MEHEFIN, 2025

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 12fed Mai, 2025.

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Carys H. Evans ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams gyda phawb yn cytuno).

Materion yn codi

(1) **Eitem 22 - cymal11 – Lloches bws ym Motwnnog**

Adroddodd Y Cynghorydd Gareth Williams, iddo dderbyn cadarnhad gan Y Feddygfa eu bod yn fodlon i osod y lloches ar eu tir ond fod yn rhaid i'r Cyngor fod yn gyfrifol am gostau cyfreithiol fyddai oddeutu £2,000.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

(2) **Eitem 22 – cymal 13 Materion Ffyrdd a Llwybrau**

Adroddwyd nad oedd canlyniadau yn dilyn rhoi 'speed strips' i lawr yr allt am bentref Sarn Mellteyrn i law.

Trafodwyd y posibilrwydd o gael llinellau coch ar y ffordd; arwyddion o dan yr enw 'Sarn Mellteyrn' i ddynodi fod gyrrwyr yn dod i uchafswm cyflymdra o 20mya; tynnu sylw fod yr allt bellach wedi ei dynodi fel Llwybr Beics Cenedlaethol. Yn dilyn trafodaeth **penderfynwyd** gwahodd Y Cwnstabl Einir Owen i gyfarfod o'r Cyngor i'r aelodau gael cyfle i fynegi eu pryder.

(3) **Eitem 29 – Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd**

Gan fod Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd yn methu bod yn bresennol yn y cyfarfod, 'roedd Y Gadeiryddes a'r Is-Gadeiryddes wedi trafod y posibilrwydd o sefydlu Clwb Ieuenctid yn yr ardal gydag Arweinydd Gwaith Cymunedol Ieuenctid. Rhoddwyd amlinelliad i'r cyfarfod o beth a olygir i sefydlu Clwb Ieuenctid a beth fyddai'r costau i'r Cyngor Cymuned.

Penderfynwyd oherwydd y costau peidio symud ymlaen y flwyddyn hon gyda'r prosiect yma.

(4) **Eitem 30 – Cyflwyniad Gwynedd Ni i Gynghorau Tref a Chymuned Gwynedd**

Cyflwynwyd pecyn yn gwahodd y Cyngor i ymgeisio am grant hyd at £5,000 tuag at brosiect yn eu hardal. Teimlwyd fod hwn yn gyfle i'r Cyngor gael gosod lloches bws ger Y Feddygfa ym Motwnnog.

Penderfynwyd symud ymlaen i gyflwyno cais am grant a'r rhai a ganlyn i gyfarfod i lenwi'r ffurflen ymgeisio ac i ddirpwyo unrhyw benderfyniad fydd angen iddynt ei wneud yn ystod mis Awst cyn cyfarfod llawn o'r Cyngor ym Medi:

Cynghorwyr Gwenan Griffiths (Cadeiryddes), Carys H. Evans, Elin Hughes, Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd a'r Clarc.

(5) **Eitem 34 – Cofnodion Pwyllgor Ardal Arfon a Dwyfor**

Derbyniwyd ymateb Swyddog Datblygu Gogledd Cymru o Un Llais Cymru yn nodi mai'r "trefniant ydi fod dau gyfarfod y flwyddyn wyneb yn wyneb a dau ar Zoom, felly mi fydd un yr Hydref a'r Gaeaf ar Zoom.'

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

39. CEISIADAU CYNLLUNIO

Cyflwynwyd y ceisiadau a ganlyn i sylw'r Cyngor:

(a) Cais 25/0432/32/DT – estyniad deulawr aro chr orllewinol yr eiddo – 2 Fron Heulog, Brynmawr.

(b) Cais C25/0430/32/RC – cais i ddiddymu amod person lleol yn ymwneud a chodi tŷ o dan gyfeirnod 2/12/44B ar dir ger Angorfa, Bryncroes – Waen Lydan, Pengroeslon.

(c) Cais 25/0472/32/DT – cais am estyniad deulawr i gefn yr eiddo – Minafon, Botwnnog.

Penderfynwyd

(a) Cefnogi cais o dan gymal (a) ac (c).

(b) Gwrthwynebu'r cais o dan gymal (b) uchod.

Yn y cyswllt hwn hefyd derbyniwyd gwybodaeth gan Neil Hemington, Prif Gynllunydd, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ynglyn a'r drafft o'r Bil Cynllunio (Cymru) – copi wedi ei anfon at bob aelod gyda'r rhaglen.

Penderfynwyd nodi ei dderbyn.

40. DIFFIBRILWYR

Cyflwynwyd e-bost oddi wrth Einir Wyn, Clerc Cyngor Cymuned Llanengan fel ganlyn: "Yn dilyn newidiadau yn y drefn o gynnal a chadw diffibrilwyr, h.y. newid batris a phadiau a wneid gan y Gwasanaeth Ambiwlans tan yr haf diwethaf, pan fu raid i Gyngor Cymuned Llanengan brynu rhai newydd, penderfynodd yr Aelodau ofyn am hyfforddiant gan Ymatebwyr Cyntaf yr ardal ar sut i ddefnyddio peiriant yr un pryd. Daethpwyd i'r penderfyniad hwn yn dilyn dau ddigwyddiad yn y gymuned ble bu'n rhaid defnyddio diffibrilwyr hefyd; cafwyd hyfforddiant buddiol iawn.

Cysylltais yn wreiddiol â Mel ab Owain, Swyddog Datblygu Un Llais Cymru, i ofyn iddo roi'r mater ar raglen Pwyllgor Ardal Dwyfor Arfon ym mis Ionawr ond, oherwydd ei ymddeoliad, ni ddigwyddodd hynny. Yna, o ganlyniad i sgwrs â Meinir Roberts, un o'r Ymatebwyr, a Tomos Hughes, Cydlynydd Cymunedol Achub Bywyd GIG Cymru, penderfynwyd y buasai'n syniad cynnal cyfarfod i Gynghorau Cymuned a Thref Llŷn ac Eifionydd ddeall y drefn yn iawn – a chyfrifoldeb pwy'n union ydyn nhw. Felly, dyma rag-rybudd i'ch gwahodd i gyfarfod 'hyfforddiant' a sgwrs yn Neuadd Aber-soch ym mis Medi – dyddiad ac ati i'w gadarnhau'n iawn eto.

Gobeithio y bydd ymateb cadarnhaol i'r cyfarfod.

Cysylltaf eto at ddiwedd mis Awst/dechrau mis Medi."

Adroddodd Y Cynghorydd Carys H. Evans fod hyfforddiant ar gyfer y gymuned ar y gweill. Hefyd fod Calonau Botwnnog yn trefnu raffl at y diffiblwyr.
Yr un modd dyweddodd Y Cynghorydd Evans y byddai'n gallu mynychu'r cyfarfod arfaethedig uchod ar ran y Cyngor.
Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

41. **PROSIECT PERTHYN – CEFNOGI GRWPIAU CYMUNEDOL GWYNEDD**
Nodwyd e-bost gan Samantha Edward ynglyn a'r uchod – copi wedi ei anfon at bob aelod gyda'r rhaglen.

42. **SEFYLLFA PARCIO YN YSBYTY BRYN BERYL**
Tynnwyd sylw fod diffyg parcio yn Ysbyty Bryn Beryl a **phenderfynwyd** anfon at Brif Weithredwr Betsi Cadwaladr am iddynt ystyried ehangu'r maes parcio.

43. **MEINCIAU**
Adroddodd Y Cynghorydd Glyn Roberts fod angen pren newydd ym mainc sydd yn Botwnnog ac ei fod am fynd a hi o'r safle i'w thrwsio. Hefyd mae trefniadau mewn llaw i baentio'r meinciau.
Diolchwyd i'r Cynghorydd Glyn Roberts.

44. **AWDURDOD I DALU**
Awdurdodwyd y taliad a ganlyn:
Un Llais Cymru - £196 (siec 200871)

45. **FFONAU SYMUDOL**
Adroddwyd fod y ffonau symudol yn gweithio'n sâl ar y funud a **phenderfynwyd** trafod y mater yng nghyfarfod Medi o'r Cyngor.

46. **HAWLIAU MIS AWST**
Yn unol â'r arferiad i roddi hawl yn ystod mis Awst i'r Gadeiryddes **penderfynwyd** rhoddi hawl iddi:
(a) mewn ymgynghoriad a'r aelodau lleol i benderfynu ar unrhyw gais cynllunio ddaw i law yn ystod y cyfnod.
(b) awdurdodi unrhyw daliad ddaw yn ddyleus yn ystod y cyfnod

47. **CASGLU YSBWRIEL YM MHENTREF BOTWNNOG**
Adroddodd Y Cynghorydd Carys H. Evans fod rhai o ddisgylion ac athrawon Ysgol Uwchradd Botwnnog wedi bod yn casglu ysbwriel o amgylch y pentref. Diolchwyd i bawb am eu gwaith.